**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 25 HYDREF 2023 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd) trwy Teams; Mrs Dianne Bevan; Mr Frank Cuthbert; Mr Michael Imperato; Ms Ginger Wiegand trwy Teams.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Prosiect); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Paul Elliott (Swyddog Arolygon); Miss Caitlin Lowry (Swyddog Cymorth Tîm).

**Ymddiheuriadau:**

**Amser Dechrau: 10:04**
**Amser Gorffen: 12:21**

**1. Datganiadau Buddiannau**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd**

2.1. **Rhoddodd** y Cadeirydd **wybod** bod aelodau o ysgrifenyddiaeth CFfDLC wedi cael cais i roi tystiolaeth ar gyfer Bil y Senedd ar 22 Tachwedd a'r Bil Etholiadau ar 30 Tachwedd.

2.2. **Rhoddodd** y Cadeirydd **wybod** bod cynnig adroddiad drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) ar gyfer 2024/25 wedi cael ei ddosbarthu.

2.3. **Rhoddodd** y Cadeirydd **wybod** bod cyfarfod bwrdd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn cael ei gynnal yfory a **nododd** y bydd yn derbyn sylw yn niweddariad y bwrdd pontio.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023**

**3.1. Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd yn amodol ar fân ddiwygiadau.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1)** Ni chafodd y Comisiwn unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth rhwng 13 Medi 2023 a 17 Hydref 2023.

**4.3.** **(Mater 2) Nodwyd** bod y Comisiwn yn cynnal Arolygon Cymunedol ar hyn o bryd ar gyfer Bro Morgannwg, Caerffili, Ceredigion, Abertawe, a Sir Benfro.

**4.4.** **(Mater 3) Nodwyd** y bydd y mater hwn yn cael ei drafod o dan eitem 5.

**4.5.** **(Mater 4) Nodwyd** bod swyddogion Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cysylltu â'r Comisiwn ar 23 Medi 2023 a bod y Prif Weithredwr, y Pennaeth Busnes a'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni wedi mynychu cyfarfod ar y cyd i amlinellu'r camau nesaf, a bod y Pennaeth Busnes a'r Rheolwr Cyllid wedi mynychu cyfarfod arall. **Nodwyd** bod cwestiynau ynglŷn â TGCh wedi cael eu cytuno ac y disgwylir i brisiadau gael eu hanfon at y Comisiwn i'w alluogi i baratoi cyllideb 24/25. **Nodwyd** bod rhagor o wybodaeth wedi cael ei hanfon ynglŷn â mesuriadau a llinellau amser amrywiol a bod y Comisiwn wedi cael cadarnhad o'r cais i ymestyn prydles Tŷ Hastings am 12 mis gyda chyfnod rhybudd 6 mis. **Nodwyd** bod y Comisiwn yn cynllunio ar gyfer symud ym mis Mai 2024.

**4.6.** **(Mater 5) Nodwyd** y bydd ORS yn rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod mis Rhagfyr. **Nodwyd** y byddai'n fuddiol i'r rhai sy'n mynychu gael rhywfaint o wybodaeth gan ORS ynglŷn â'u canfyddiadau o flaen llaw. **Cytunwyd** i wahodd aelodau'r IRP i ymuno â'r cyfarfod hwn.

**4.7.** **(Mater 6) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael 10 cais ar gyfer y rôl Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) a bod 5 o'r rhain wedi cael gwahoddiad i gyfarfod â Chadeirydd y Comisiwn a Chadeirydd yr ARAC ar 9 Tachwedd 2023. **Nodwyd** bod y Comisiwn yn disgwyl recriwtio 2 aelod annibynnol gyda dyddiadau dechrau gwahanol.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

**5.1.** **Rhoddodd** y Prif Weithredwr **wybodaeth** am y Rhaglen Bontio.

**5.2.** Ymunodd Chris Llewellyn o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a siaradodd.

**5.3.** **Nodwyd** bod y prif faterion yn y Rhaglen Bontio'n cynnwys llywodraethu, strwythur a staffio.

**5.4.** **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer strwythur staffio yn y dyfodol a bod gwaith yn gallu mynd rhagddo bellach ar greu swydd-ddisgrifiadau.

**5.5.** **Nodwyd** bod y Comisiwn yn bwriadu sicrhau bod staff y Bwrdd Rheoli Etholiadol ar waith erbyn mis Hydref neu fis Tachwedd 2024.

**5.6.** **Nodwyd** y bydd y Tîm Arolygon yn ceisio ehangu a thyfu o fewn y 6-8 mis nesaf.

**5.7.** **Nodwyd** bod y swydd-ddisgrifiadau ar gyfer Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol wedi cael eu cwblhau.

**5.8.** **Nodwyd** y dylai'r papurau Cyllid gael eu tablu o fewn dogfen o hyn allan.

**5.9.** Trafodwyd gradd a chyflog rôl y Pennaeth Iechyd Democrataidd.

**5.10.** **Nodwyd** y byddai'n ddefnyddiol diffinio termau gwleidyddol fel 'iechyd democrataidd' yn swydd-ddisgrifiadau Comisiynwyr er mwyn denu Comisiynwyr o ystod eang o gefndiroedd.

**5.11.** Trafodwyd trosglwyddo Comisiynwyr o CFfDLC i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC).

**5.12.** **Gweithredu:** SPM i wneud diwygiadau i swydd-ddisgrifiadau.

## 6. Y Flaenraglen Waith

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar y Flaenraglen Waith dyddiedig 18 Hydref 2023 gan y Prif Weithredwr.

**6.2.** Rhoddodd FC ac SPM amlinelliad cryno o Fil Senedd Cymru a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig.

**6.3.** **Nodwyd** y bydd angen i Gadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol fod yn Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'n Swyddog Canlyniadau blaenorol.

**6.4.** Rhoddwyd ystyriaeth i swyddogaeth cynlluniau peilot etholiadol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig, gan gynnwys unrhyw gostau ychwanegol a ddaw yn sgil hyn.

**6.5.** Rhoddwyd ystyriaeth i bryderon ynglŷn â chostau cyngor cyfreithiol posibl sy'n gysylltiedig â gwaith y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn y dyfodol.

**6.6.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Bleidleiswyr a’r cyfrifoldeb caffael yn ogystal â phryd y disgwylir iddi fod ar waith.

**6.7.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r cymal “mae’n rhaid i ni geisio lleihau newid i’r eithaf” ym Mil Diwygio’r Senedd a mynegwyd pryderon ynglŷn â phroblemau y gallai hyn eu hachosi yn y dyfodol.

**6.8.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r posibilrwydd y gallai un o’r Biliau fethu a’r oedi posibl i Filiau eraill o ganlyniad i hyn.

**6.9.** **Gweithredu:** SPM i ddosbarthu adroddiad uchafbwyntiau ar gyfer y 3 Bil sy’n mynd trwy’r Senedd ar hyn o bryd.

## 7. Adroddiad ar Gyllideb 2023-24

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad Monitro’r Gyllideb dyddiedig 25 Hydref 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**7.2.** **Nodwyd** bod rhai newidiadau wedi’u gwneud i gynyddu categorïau’r gyllideb gan drosglwyddo cronfeydd i sawl cyllideb i fynd i’r afael â gorwariant amcangyfrifedig. Y prif newid oedd ychwanegu categori Cyfryngau a Hysbysebu i fynd i’r afael â’r costau hysbysebu ar gyfer yr Aelod Annibynnol newydd o’r ARAC.

**7.3.** **Nodwyd** y tanwariant cyffredinol hyd at ddiwedd mis Medi 2023 ac adroddwyd y disgwylir i’r gwariant ar gyfer gweddill y flwyddyn aros o fewn cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2023-24.

## 8. Rheoli Risg – Cofrestr Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad Rheoli Risg dyddiedig 25 Hydref 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**8.2.** **Nodwyd** na fu newid i’r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf. Roedd y Comisiwn o’r farn y dylai Risg CR2 gael ei haileirio i adlewyrchu’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r Bwrdd Rheoli Etholiadol oherwydd byddai’r Comisiwn yn ei gynnal yn unig ond yn atebol amdano o hyd. Dylai Risg CR2 hefyd gyfeirio at y Gofrestr Risg ar wahân ar gyfer y Flaenraglen Waith a’i chynnwys fel cam gweithredu lliniarol.

**8.3.** Rhoddwyd ystyriaeth i rôl yr ysgrifenyddiaeth a strwythur y Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd. **Nodwyd** y dylai atebolrwydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol gael ei ystyried a’i archwilio.

**8.4.** **Nodwyd** y dylai’r Gofrestr Risg ar gyfer y Flaenraglen Waith gael ei rhannu mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**8.5.** **Gweithredu:** Trafod rôl yr ysgrifenyddiaeth yn y Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd ac atebolrwydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol gyda Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a Lisa James yn LIC. Anfon cwestiynau ffurfiol at LIC ynglŷn â rôl y Bwrdd Rheoli Etholiadol.

**8.6.** **Gweithredu:** Aileirio Risg CR2 a'i gwneud yn risg ar wahân ar gyfer y rhaglen bontio.

## 9. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 17 Hydref 2023 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**9.2.** **Nodwyd** bod 5 arolwg cymunedol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, sydd i gyd ar gamau gwahanol.

**9.3.** **Nodwyd** bod llawer o bobl wedi mynychu'r cyfarfod cychwynnol yn Sir Benfro a bod aelodau o'r Tîm Arolygon wedi cael eu gwahodd i gyfarfod dilynol gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr yr wythnos nesaf.

**9.4.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Polisi Maint y Cyngor ar gyfer Sir Benfro.

## 10. Arolwg Cymunedol Ceredigion

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Arolwg Cymunedol Ceredigion – Fersiwn Ddrafft o'r Adroddiad Cynigion Drafft dyddiedig 17 Hydref 2023 gan y Swyddog Arolygon.

**10.2.** **Nodwyd** bod adborth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar Arolwg Ceredigion yn datgan pan fydd dwy gymuned yn cael eu diddymu a chymuned newydd yn cael ei chreu, dylid cynnwys 'a/ac' yn enw'r Gymuned newydd.

**10.3.** **Cytunwyd** ar yr Adroddiad Cynigion Drafft.

## 11. Calendr Digwyddiadau

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Calendr Digwyddiadau.

**11.2.** Cytunwyd ar ddyddiadau holl gyfarfodydd CFfDLC ar gyfer 2024.

## 12. Unrhyw Fater Arall

**12.1 Nodwyd** y bydd Lisa James o LIC yn mynychu cyfarfod gyda Chomisiynwyr CFfDLC yn ddiweddarach.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 13 Rhagfyr 2023